# Pwyllgor Grantiau Cyffredinol

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Hydref, 2016

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Jeffrey M.Evans (Chair)<br>Lewis Davies (Vice-Chair)<br><br>R Dew, Jim Evans, Victor Hughes, Llinos Medi Huws, Richard Owain Jones a Dylan Rees |
| **WRTH LAW:** | Trysorydd.<br><br>**Swyddogion o Gyngor Sir Ynys Môn (cyfeirir atynt o hyn ymlaen wrth deitlau eu swyddi gyda CSYM)**<br><br>Cymhorthydd Gweinyddol (CS),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU :** | Dim |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Dim |

---

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Datganodd Mr. T. Ll. Hughes fuddiant personol mewn perthynas â chais 02 (Clwb Pêl-droed Holyhead Hotspurs) a ni chymerodd ran yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

**2 COFNODION**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Gorffennaf, 2016.

**3 GRANTIAU BLYNYDDOL 2016/17**

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Trysorydd mewn perthynas â'r uchod.

Adroddwyd bod y Pwyllgor, yn ei gyfarfod ar Orffennaf 13eg, 2016, wedi penderfynu gohirio ystyried 8 cais er mwyn casglu gwybodaeth bellach y gofynnwyd amdani gan y Pwyllgor. Roedd manylion am y ceisiadau ynghlwm i'r adroddiad yn Atodiad A a B.

Dywedodd y Trosorydd fod yr Ymddiriedolaeth Elusennol lawn a gynhaliwyd ar Fedi 13eg, 2016 wedi penderfynu dirprwyo awdurdod i'r Pwyllgor Grantiau Cyffredinol i gymerdwyo ceisiadau am Grantiau Bach ac felly ni fydd angen i'r Ymddiriedolaeth Elusennol llawn ond nodi cofnodion y Pwyllgor Grantiau cyffredinol o hyn ymlaen.

**Yn dilyn trafodaethau ar bob cais PENDERFYNWYD cymeradwyo'r symiau ar gyfer Cyfleusterau Cymunedol – Grantiau Cyfalaf 2016/17 fel a ganlyn:-**

| | | |
|---|---|---|
| **01 3D KIDS** | I alluogi gweithgareddau cymdeithasol ar gyfer Plant ac Oedolion (0-25) a'u Teuluoedd | **£2,100** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 02 | **Clwb Pêl-droed Holyhead Hotspur** | Adnewyddu'r ardal i wylwyr | **£3,900**<br><br>*(yn ddibynnol bod prydles y tir wedi'i chytuno â'r perchnogion newydd)* |
| 06 | **Parti Meibion Bara Brith** | Arian i greu CD | **Tynnwyd y cais yn ôl** |
| 15 | **ADLAIS** | Cefnogaeth i ariannu cyngerdd Pen-blwydd y côr yn 25 | **DIM**<br><br>*(ddim yn gymwys)* |
| 17 | **PANTRI 6** | Arian ar gyfer arwyddion, peintio, gostwng y nenfwd, inswleiddio, inswleiddio'r waliau, gwres canolog gosod toiled ar gyfer yr anabl, tudalen we a chyflog un swydd | **DIM**<br><br>*(ni ymatebodd y sefydliad i'r cynnig gan y Swyddogion i drafod y cais yn unol â chais y Pwyllgor Grantiau Cyffredinol)* |
| 20 | **Cyngor Cymuned Llannerch-y-medd** | Diogelu'r Rhandiroedd Cymunedol yn unol â gofynion y Brydles ac amodau Iechyd a Diogelwch | **£1,850** |

*(Ymatalodd Llinos M. Huws ei phleidlais oherwydd ei bod yn bresennol yng nghyfarfodydd Cyngor Cymuned Llannerch-y-medd yn rhinwedd ei swydd fel Cynghorydd Sir)*

| | | | |
|---|---|---|---|
| 26 | **Cymdeithas Ardal Chwarae Llanfaes** | Offer i greu ardal chwarae | **£4,984** |
| 36 | **Clwb Hwylio Brenhinol Ynys Môn** | Cyfraniad tuag at brynu cwch ddiogelwch | **£8,000** |

**Cais a adawyd allan o'r adroddiad gwreiddiol.**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 37 | **Cwmni Cemaes Cyf.** | Gosod ffenestri newydd, gosod gwydr dwbl mewn drws allanol, rheiliau o flaen yr adeilad i atal cwympiadau a ffensys | **£7,664** |

**Mr. Jeff M. Evans**
**Cadeirydd**